

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Ionawr 2020 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, Mrs. J. Butterfield YH MBE, A.S. Johnson, K. R. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Miss S. Roberts, Ms V. Roberts, a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

37. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs. P.M. Jones, Mrs W. Mullen James, A.J. Rutherford, and R. Turner, a Miss C.L. Williams.

38. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO	
38.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 15 Rhodfa'r Dwyrain, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Bodfor</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Ms J. Hughes Ms J. McAlpine</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2019/1059</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Newidiadau a throsi i ffurfio 8 eiddo preswyl ar rent.</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Mr. Rani, 5R Holdings Limited, 44-45 Calthorpe Road, Birmingham</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none">- <i>Mae'r datblygiad yn cynrychioli gor-ddwysad o'r eiddo</i>- <i>Diffyg man storio biniau addas</i>- <i>Mae'r cynnig yn mynd yn groes i bolisi PS13 y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan ei fod yn cynrychioli colli llety i ymwelwyr.</i>
38.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 74 Bryn Cwnin Road, y Rhyl</p>

WARD: Derwen

CYNGHORWYR Y WARD: Mrs. J. Chamberlain Jones
Mrs. E.M. Chard
Miss S. Roberts

RHIF Y CAIS: 45/2019/1092

DISGRIFIAD: Adeiladu estyniad ochr un llawr i'r eiddo a newidiadau.

YMGEISWYR : Ms. Iwona Kedzierska, o'r cyfeiriad uchod

PENDERFYNIAD: *Dim gwrthwynebiad ond nodi y dylai disgrifiad y cais nodi newid defnydd modurdy yn llofft.*

39. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: